

Hen Wlad Fy Nhadau

Mae hen wlad fy nhadau yn annwyl i mi,
Gwlad beirdd a chantorion, enwogion o fri;
Ei gwrol ryfelwyr, gwladgarwyr tra mad,
Dros ryddid collasant eu gwaed.

Gwlad, gwlad, pleidiol wyf i'm gwlad.
Tra môr yn fur i'r bur hoff bau,
O bydded i'r hen iaith barhau.

Hen Gymru fynyddig, paradwys y bardd,
Pob dyffryn, pob clogwyn, i'm golwg sydd hardd;
Trwy deimlad gwladgarol, mor swynol yw si
Ei nentydd, afonydd, i mi.

Gwlad, Gwlad, pleidiol wyf i'm gwlad.
Tra môr yn fur i'r bur hoff bau,
O bydded i'r hen iaith barhau.

Os treisiodd y gelyn fy ngwlad tan ei droed,
Mae hen iaith y Cymru mor fyw ag erioed,
Ni luddiwyd yr awen gan erchyll law brad,
Na thelyn berseiniol fy ngwlad.



Calon Lân

Nid wy'n gofyn bywyd moethus,
Aur y byd na'i berlau mân:
Gofyn wyf am galon hapus,
Calon onest, calon lân.

Cytgan:

Calon lân yn llawn daioni,
Tecach yw na'r lili dlos:
Dim ond calon lân all ganu-
Canu'r dydd a chanu'r nos.

Pe dymunwn olud bydol,
Hedyn buan ganddo sydd;
Golud calon lân, rinweddol,
Yn dwyn bythol elw fydd.

Cytgan


Hwyr a bore fy nymuniad
Gwyd i'r nef ar edyn cân
Ar i Dduw, er mwyn fy Ngheidwad,
Roddi i mi galon lân.

Cytgan:

Lliwiau'r Enfys

Coch a melyn
a fioled a glas,
porffor ac oren a gwyrdd,
Dyma liwiau'r enfys
lliwiau'r enfys
lliwiau'r enfys hardd.

Coch a melyn
a fioled a glas,
porffor ac oren a gwyrdd,
Dyma liwiau'r enfys
lliwiau'r enfys
lliwiau'r enfys hardd.



YMA O HYD

Dwyt ti'm yn cofio Macsen,
Does neb yn ei nabod o;
Mae mil a chwe chant o flynyddoedd
Yn amser rhy hir i'r co';
Pan aeth Magnus Maximus o Gymru
Yn y flwyddyn tri-chant-wyth-tri,
A'n gadael yn genedl gyfan
A heddiw: wele ni!

[Cytgan]

Ry'n ni yma o hyd, x2
Er gwaetha pawb a phopeth, x3
Ry'n ni yma o hyd, x2
Er gwaetha pawb a phopeth, x3
Ry'n ni yma o hyd.

Chwythed y gwynt o'r Dwyrain,
Rhued y storm o'r môr,
Hollted y mellt yr wybren
A gwaedded y daran encôr,
Llifed dagrau'r gwangalon
A llyfed y taeog y llawr
Er dued yw'r fagddu o'n cwnpas
Ry'n ni'n barod am doriad y wawr!

[Cytgan]

Cofiwn i Facsen Wledig
Adael ein gwlad yn un darn
A bloeddiwn gerbron y gwledydd
'Mi fyddwn yma tan Ddydd y Farn!
Er gwaetha pob Dic Siôn Dafydd,
Er gwaetha 'rhen Fagi a'i chriw
Byddwn yma hyd ddiwedd amser
A bydd yr iaith Gymraeg yn fyw!

[Cytgan]

You don't remember Macsen,
Nobody knows him;
One thousand and six hundred years
Is a time too long to remember;
When Magnus Maximus left Wales
In the year 383
Leaving us a whole nation
And today - look at us!

[Chorus]

We are still here x2
In spite of everyone and everything x3
We are still here x2
In spite of everyone and everything x3
We are still here.

[End of Chorus]

Let the wind blow from the East
Let the storm roar from the sea
Let the lightning split the heavens
And the thunder shout "Encore!"
Let the tears of the faint-hearted flow
And the servile lick the floor
Despite the blackness around us
We are ready for the breaking of the dawn!

[Chorus]

We remember that Macsen the Emperor
Left our country in one whole piece,
And we shall shout before the nations
'We'll be here until Judgement Day!'
Despite every Dic Siôn Dafydd
Despite old Maggie and her crew,
We'll be here until the end of time,
And the Welsh language will be alive!

[Chorus]





Sosban fach

**Mae bys Meri-Ann wedi brifo,
A Dafydd y gwas ddim yn iach.
Mae'r baban yn y crud yn crio,
A'r gath wedi sgrapo Joni bach**

**Sosban fach yn berwi ar y tân,
Sosban fawr yn berwi ar y llawr,
A'r gath wedi sgrapo Joni bach.**

**Dai bach y sowldiwr,
Dai bach y sowldiwr,
Dai bach y sowldiwr,
A gwt ei grys e mas.**

**Mae bys Meri-Ann wedi gwella,
A Dafydd y gwas yn ei fedd;
Mae'r baban yn y crud yn chwerthin
A'r gath wedi huno yn ei hedd.**

Bandiau ac Artistiaid Cymraeg Cyfoes

Current Welsh Bands and Artists



Yws Gwynedd

Bronwen Lewis




Candelas

Yr Ods



Sŵnami

Kizzy Crawford



Gwrandewch ar eu caneuon am ddim ar Youtube neu Spotify!

Listen to their songs for free on Youtube or Spotify!